Cofnodion heb eu cadarnhau o Gyfarfod Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2022 am 14:00 drwy Microsoft Teams

Yn Bresennol:		
Dyfed Edwards	(DE)	Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol
Diane Crone	(DC)	Cyfarwyddwr Anweithredol
Mohammed Mehmet	(MM)	Cyfarwyddwr Anweithredol
Hefyd yn Bresennol:		
Rhiannon Beaumont-Wood	(RBW)	Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
Liz Blayney	(LB)	Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd
John Boulton	(JB)	Prif Swyddog Risg a Phennaeth Llywodraethu Gwybodaeth
Helen Bushell	(HB)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Paul Dalton	(PD)	Pennaeth Archwilio Mewnol, Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
Angela Fisher	(AF)	Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid
Huw George	(HG)	Dirprwy Brif Weithredwr, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid
Lucy Jugessur	(LJ)	Rheolwr Archwilio Ariannol, Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
Ramim Khan	(RK)	Archwilio Cymru
Neil Lewis	(NL)	Cyfarwyddwr Datblygu Sefydliadol a Phobl (ar gyfer eitem 3.1 yn unig)
Jane Matthews	(JM)	Pennaeth Adrodd a Rheoli Ariannol, Cyllid
Nigel Price	(NP)	Rheolwr Atal Twyll (ar gyfer eitem 3.4 yn unig)
Verity Winn	(VW)	Archwilio Cymru

Ysgrifenyddiaeth		
Andrew Morton	(AM)	Swyddog Cymorth y Bwrdd
Ymddiheuriadau:		
Tracey Cooper	(TC)	Prif Weithredwr
Andrew Cottom	(AC)	Ymgynghorydd Annibynnol
Jan Williams	(JW)	Cadeirydd

Dechreuodd y cyfarfod am 14:00

ACGC 1/2022 Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Agorodd DE y cyfarfod a chroesawodd bawb a oedd yn bresennol, a nodwyd bod y cyfarfod yn cael ei gynnal yn electronig oherwydd yr ymateb parhaus i COVID-19 a'r canllawiau cenedlaethol sydd mewn grym.

Nododd y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio i gefnogi cywirdeb y cofnodion, ac y byddai'r recordiad hwn yn cael ei ddileu ar ôl cytuno ar y cofnodion yn y cyfarfod nesaf ym mis Mawrth 2022.

Nodwyd yr ymddiheuriadau am absenoldeb**.**

ACGC 2/2022 Datgan Buddiannau

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiannau yn ychwanegol at y rhai a ddatganwyd eisoes ar y Gofrestr Datgan Buddiannau.

ACGC 3/2022 Eitemau er Sicrwydd

ACGC 3.1/2022 Archwilio Allanol

ACGC 3.1.1/2022 Archwilio Cymru – Adroddiadau Archwilio

Derbyniodd y Pwyllgor ddau bapur Asesiad Strwythuredig 2021 a'r Adroddiad Archwilio Blynyddol (cyf 3.1.1a, b ac c ACGC 20012022). Nododd VW fod yr adroddiad yn un cadarnhaol, heb unrhyw argymhellion yn ymwneud â Chynllunio Gweithredol, ac un argymhelliad bach yn ymwneud â Llywodraethu Corfforaethol a Rheolaeth Ariannol, mater y mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi mynd i'r afael ag ef.

Nododd VW fod adroddiad ar Drefniadau Llywodraethu Ansawdd wrthi'n cael ei gwblhau ac y byddai'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn ac i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella.

Hysbysodd HB y Pwyllgor nad oedd papur Adroddiad Archwilio Blynyddol llawn wedi'i gynnwys ar yr agenda drwy gamgymeriad. Cytunwyd y byddai'r Adroddiad Archwilio Blynyddol yn cael ei ddosbarthu yn dilyn y cyfarfod, a'i gadarnhau'n ffurfiol yn y cyfarfod nesaf.

Holodd y Pwyllgor ynghylch rhoi'r cam gweithredu a nodwyd ar waith, a oedd yn ymwneud â sicrhau bod system ar waith i fonitro'r broses o weithredu argymhellion y gwasanaeth Archwilio Allanol. Cadarnhaodd VW fod Archwilio Cymru yn fodlon bod ICC wedi mynd i'r afael â'r argymhelliad, ac y byddai'r camau gweithredu yn

cael eu cynnwys yn y system olrhain Archwiliadau a ddefnyddir gan Uned Fusnes y Bwrdd.

Canmolodd DC y tîm yn Iechyd Cyhoeddus Cymru am yr adroddiad cadarnhaol hwn, yn enwedig o ystyried cyd-destun y pandemig a'r heriau yn ystod y 12 mis diwethaf.

ACGC 3.1.2/2022 Archwilio Cymru – Adroddiad ar Gynnydd

Roedd yr adroddiad yn nodi'r argymhellion o Adroddiad Cyfrifon a Datganiad Ariannol 2020-21. Dywedodd HG wrth y Pwyllgor fod yr holl argymhellion yn yr adroddiad wedi'u cymeradwyo gan y rheolwyr a'u bod wrthi'n cael eu rhoi ar waith a diolchodd i Dîm Archwilio Cymru am ei waith parhaus gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Derbyniodd y Pwyllgor yr argymhellion yn yr adroddiad.

ACGC 3.2/2022 Adroddiadau y Gwasanaeth Archwilio Mewnol

ACGC 3.2.1/2022 Cynnydd ac Adroddiadau'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol

Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiadau Terfynol Archwilio Mewnol fel a ganlyn (cyf 3.2.1, a, b c a d ACGC 20012022):

- Adroddiad ar Gynnydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol;
- Adroddiad Terfynol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar Recriwtio;
- Adroddiad Terfynol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar Ailddechrau Sgrinio;
- Adroddiad Terfynol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar Achos o Dor Diogelwch Data;
- Adroddiad Terfynol Dilynol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar Oriau Ychwanegol a Goramser.

Adroddiad ar Gynnydd

Rhoddodd PD y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar y cynnydd o ran Cynllun Gwaith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2021/22:

- Roedd archwiliad i'w ychwanegu at y cynllun mewn perthynas â stoc microbioleg, a oedd wrthi'n cael ei gwmpasu ar hyn o bryd.
- Roedd yr Adolygiad o Iechyd y Boblogaeth a Datblygu Ymgynghorwyr wedi'i ohirio tan 2022/23.
- Roedd Rhaglen Waith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol wrthi'n cael ei drafftio ar hyn o bryd, yn dilyn trafodaethau â'r Tîm Gweithredol.

Roedd Archwiliad Stoc Microbioleg wedi'i amserlennu i gyd-fynd â'r broses gysoni ar ddiwedd y flwyddyn. Nododd HG fod lefelau uchel o stoc y llynedd oherwydd y pandemig a bwriad yr archwiliad hwn oedd rhoi sicrwydd ynghylch daliadau stoc a dilysu perthnasedd lefelau stoc.

Yn dilyn cais am eglurhad pellach gan y Pwyllgor ynglŷn â'r rhesymeg dros y newidiadau i'r cynllun gwaith, cadarnhaodd PD fod yr Adolygiad o Iechyd y Boblogaeth wedi'i ohirio o ganlyniad i symud staff i weithio ar yr Ymateb Diogelu Iechyd o ganlyniad i'r pandemig.

Nododd PD fod Cynllun Gwaith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn hyblyg ac yn cael ei addasu gydol y flwyddyn, i sicrhau cwmpas priodol er mwyn cefnogi Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddiwedd y flwyddyn.

Derbyniodd y Pwyllgor yr Adroddiad ar Gynnydd.
Crynhodd LJ bob un o Adroddiadau Terfynol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol:

Recriwtio
Cafwyd sicrwydd sylweddol yn Adroddiad Terfynol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar Recriwtio. Roedd yr adroddiad yn cynnwys un argymhelliad blaenoriaeth isel. **Derbyniodd** y Pwyllgor Adroddiad Terfynol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar Recriwtio.

Ailddechrau Sgrinio
Cafwyd sicrwydd sylweddol yn adroddiad Terfynol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar Ailddechrau Sgrinio. Roedd yr adroddiad yn cynnwys un argymhelliad â blaenoriaeth ganolig. **Derbyniodd** y Pwyllgor Adroddiad Terfynol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar Ailddechrau Sgrinio.

Achos o Dor Diogelwch Data
Cafwyd sicrwydd sylweddol yn Adroddiad Terfynol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar Achos o Dor Diogelwch Data. Roedd yr adroddiad yn cynnwys un argymhelliad â blaenoriaeth ganolig. Roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru wrthi'n adolygu systemau gan gyfeirio at waelodlin a sefydlwyd gan yr adran Llywodraethu Gwybodaeth. Amlygwyd un canfyddiad canolig yn ymwneud â threfniadau adrodd i'r Pwyllgor ar yr achos o dor diogelwch data. **Derbyniodd** y Pwyllgor Adroddiad Terfynol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar yr Achos o Dor Diogelwch Data.

Holodd y Pwyllgor ynghylch yr argymhelliad yn ymwneud â'r adolygiad o'r adroddiad ar yr Achos o Dor Diogelwch Data. Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Bwrdd pan gafodd ei gyhoeddi gyntaf, ynghyd ag adroddiadau rheolaidd i'r Tîm Gweithredol Busnes i oruchwylio gweithredu'r cynllun gweithredu. Roedd y cam gweithredu yn ymwneud â'r Pwyllgor yn ystyried cynnydd mewn modd mwy amserol.

Oriau Ychwanegol a Goramser
Cafwyd sicrwydd rhesymol yn Adroddiad Terfynol Dilynol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar Oriau Ychwanegol a Goramser. Roedd yr adroddiad yn cynnwys tri argymhelliad â blaenoriaeth ganolig, ac un argymhelliad â blaenoriaeth isel. Adroddiad dilynol i adroddiad sicrwydd cyfyngedig yn 2021 oedd hwn, a chafwyd sicrwydd rhesymol yn yr adolygiad dilynol hwn, ac roedd yr holl argymhellion lefel uchel wedi cael sylw, a gwnaed dau argymhelliad pellach yn yr adroddiad dilynol.

Cydnabu'r Pwyllgor y gwaith a wnaed i fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad gwreiddiol, i gyflawni sicrwydd rhesymol yn yr adroddiad dilynol.

Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Terfynol Dilynol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar Oriau Ychwanegol a Goramser.

ACGC 3.2.2/2022	**Dull o Ymdrin â Chynllun Gwaith 2022-23 y Gwasanaeth Archwilio Mewnol**

Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad ar lafar ynghylch datblygiad Cynllun Gwaith 2022-23 y Gwasanaeh Archwilio Mewnol, a oedd wrthi'n cael ei ddrafftio mewn ymgynghoriad â'r Tîm Gweithredol a byddai'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ei gymeradwyo yn y cyfarfod nesaf.

ACGC 3.3/2022	**Diweddariad ar Gynllun Gweithredu Taliadau Oriau Ychwanegol a Goramser**

Derbyniodd y Pwyllgor Ddiweddariad ar Gynllun Gweithredu Taliadau Oriau Ychwanegol a Goramser (cyf 3.3a, b ac c ACGC 20012022).

Amlinellodd NL waith y Gyfarwyddiaeth Datblygu Sefydliadol a Phobl i ymateb i ganfyddiadau Adroddiad cychwynnol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, a amlinellwyd yn yr adroddiad diweddaru: aethpwyd i'r afael â'r holl gamau gweithredu ar wahân i Weithdrefn Weithredu Safonol cyfraddau taliadau chwyddo, ac optio allan o'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith.

Trafododd y Pwyllgor:

- Y mecanwaith ar gyfer sicrwydd sy'n monitro ymlyniad at y gyfarwyddeb oriau gwaith. Esboniodd NL fod rhan o'r ffurflen awtomataidd yn atgoffa'r unigolyn o'r angen i gwblhau'r ffurflen angenrheidiol. Yn ychwanegol at hynny roedd hefyd yn procio cof y rheolwr llinell. Esboniodd fod hyn yn cael ei fonitro'n fisol i'r Tîm Gweithredol Busnes i sicrhau ei fod yn cael sylw.
- Yn dilyn ymholiad gan y Pwyllgor, esboniodd LB y byddai'r camau gweithredu a nodwyd yn yr adroddiad yn cael eu cynnwys yn y Cofnod o Gamau Gweithredu Archwilio, a gweithrediad y camau gweithredu yn cael eu monitro drwy'r adroddiadau diweddaru i'r Pwyllgor. Cadarnhaodd hefyd, mewn achos lle mae testun adroddiad Archwilio Mewnol yn rhan o gylch gorchwyl Pwyllgor arall, ei fod yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwnnw er gwybodaeth.

Diolchodd DE i NL a'i dîm am y gwaith sylweddol a wnaed i gyflawni'r sicrwydd yn yr adroddiad.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** bod argymhellion adroddiad gwreiddiol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, ac adolygiad dilynol o'r ymateb archwilio, a gynhaliwyd rhwng 18 Tachwedd a 16 Rhagfyr 2021, wedi cael sylw priodol.

ACGC 3.4/2022	**Adroddiad ar Atal Twyll**

Derbyniodd y Pwyllgor yr Adroddiad ar Atal Twyll (cyf 3.4 ACGC 20012022).

Rhoddodd NP wybod i'r Pwyllgor am newidiadau diweddar i staff yr Uned Atal Twyll ac roedd disgwyl y byddai rheolwr newydd yn ei swydd erbyn dechrau'r flwyddyn ariannol newydd.

Gofynnodd DE a ystyriwyd gwneud hyfforddiant atal twyll yn orfodol i staff Iechyd Cyhoeddus Cymru. Nododd HG fod y dull mwyaf effeithiol o ddarparu hyfforddiant Atal Twyll wrthi'n cael ei ystyried. Dywedodd NP wrth y Pwyllgor fod tri Bwrdd Iechyd yng Nghymru ar hyn o bryd yn cynnal hyfforddiant atal twyll fel rhan o'u proses sefydlu ar gyfer staff newydd.

Nododd y Pwyllgor fod y tîm Atal Twyll wedi cwblhau ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad ar Atal Twyll.

ACGC 3.5/2022	**Egwyl**
ACGC 3.6/2022	**Colledion a Thaliadau Arbennig**

Ystyriodd y Pwyllgor yr Adroddiad ar Golledion a Thaliadau Arbennig (cyf 3.6 ACGC 20012022).

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** bod colledion a thaliadau arbennig yn cael eu cyflawni yn unol â Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog.

ACGC 3.7/2022	**Adroddiad Caffael**

Ystyriodd y Pwyllgor bapur Adroddiad Caffael (cyf 3.7 ACGC 20012022).

Nododd JM fod y tablau ym mharagraff 3.1 yr adroddiad yn cyfeirio at lle yr oedd nodiadau ffeil wedi'u cynnwys o ran y dyfynbrisiau sengl (SQA) a'r tendrau sengl (STA) i amlygu'r trafodion a oedd yn cael eu cwblhau y tu allan i'r broses gaffael arferol.

Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ychwanegol ynglŷn â'r nodiadau ffeil, a gofynnwyd sut yr oedd y sefydliad yn sicrhau bod unrhyw risg o ran y defnydd o dendrau sengl yn cael ei liniaru. Dywedodd JM wrth y Pwyllgor fod y cynnydd sylweddol o ran y defnydd o dendrau sengl a dyfynbrisiau sengl o ganlyniad i'r pandemig Covid a bod disgwyl i'r niferoedd leihau. Aeth HG ymlaen i nodi, yn ystod y pandemig, yn enwedig mewn perthynas â llwyfannau profi, mai dim ond un cyflenwr yn aml oedd yn gallu darparu gwasanaeth/cynnyrch. Roedd y tîm cyllid wedi sicrhau bod adolygiad yn cael ei gynnal o'r rhesymau sylfaenol dros y tendrau sengl, a gan amlaf roedd o ganlyniad i bryniannau brys a'r angen i sicrhau parhad gwasanaeth.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch cyhoeddi'r adroddiad hwn, dywedodd HB wrth y Pwyllgor nad oedd yr adroddiad Caffael hwn i'r Pwyllgor wedi'i gyhoeddi oherwydd sensitifrwydd masnachol.

Awgrymodd DE y byddai adolygu'r broses dendro yn faes y gellid ei wella, a byddai hyn wedyn yn lleihau nifer y dyfynbrisiau sengl a'r tendrau sengl sydd angen cymeradwyaeth ôl-weithredol.

Dywedodd AF wrth y Pwyllgor ei bod hi a Helen James (Pennaeth Caffael) wrthi'n adolygu cynlluniau gwaith caffael ar gyfer 2022–2023, a chaniatáu mwy o amser i gwmpasu manylebau a chynllunio fframweithiau ac ar gyfer sawl dyfynbris.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** bod gweithgarwch caffael yn cael ei gynnal yn unol â Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog.

ACGC 3.8/2022	**Adroddiad ar Berfformiad Ariannol**

Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad ar lafar gan HG. Mae adroddiad Mis naw wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru, ac mae'n nodi sefyllfa o fantoli'r gyllideb ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru. Nid oedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ymwybodol o'r dyraniad ar gyfer 2022-23 ar hyn o bryd, cafwyd y dyraniad Cyfalaf yn hwyr y diwrnod blaenorol ac roedd gostyngiad o 24%.

Nododd y Pwyllgor y byddai diweddariad Ariannol yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd yr wythnos ganlynol, a **nodwyd** y diweddariad ar lafar ar yr adeg hon.

ACGC 3.9/2022	**Adroddiad Chwarterol ar Lywodraethu Gwybodaeth**

Derbyniodd y Pwyllgor yr Adroddiad Chwarterol ar Lywodraethu Gwybodaeth (cyf 3.9a a b ACGC 20012022).

Nododd y Pwyllgor y cynnydd o ran ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, a oedd wedi bod yn cynyddu'n gyson ers sawl chwarter; roedd nifer y ceisiadau yn ddwys o ran adnoddau i'r tîm eu cwblhau. O ran y ceisiadau, dywedodd JL y dylid cyfeirio at wybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus lle bo hynny'n bosibl. Dywedodd RBW fod y ceisiadau'n cael eu blaenoriaethu a bod hynny wedi effeithio ar y cynnydd o ran gwaith gwella.

Gofynnodd HB i'r Pwyllgor nodi bod y ffigurau cydymffurfio Statudol a Gorfodol a ddyfynnwyd ar gyfer yr adran Gorfforaethol yn is na'r targed o 87%, roedd y ffigur wedi cynyddu'n ddiweddar i 82% ac roedd gwaith yn mynd rhagddo i wella hyn ymhellach.

Dywedodd LB wrth y Pwyllgor, ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor, fod y Bwrdd wedi cymeradwyo cylch gorchwyl diwygiedig ar gyfer y Pwyllgor. Yn sgil atal y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd dros dro, y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol a oedd yn goruchwylio'r gwaith Llywodraethu Gwybodaeth a Seiberddiogelwch. Cytunwyd y byddai'r meysydd hyn yn parhau o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Chorfforaethol yn barhaol.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** bod y System Rheoli Llywodraethu Gwybodaeth yn gweithio'n effeithiol.

ACGC 3.10/20012022	**Diweddariad ar Achos o Dor Diogelwch Data**

Ystyriodd y Pwyllgor y papurau'n ymwneud â Diweddariad ar yr Achos o Dor Diogelwch Data (cyf 3.10a, a b ACGC 20012022).

Trafododd y Pwyllgor:

- Y camau unioni cychwynnol a gymerwyd i fynd i'r afael â'r achos o dor diogelwch, a'r broses o sefydlu'r cynllun gweithredu.
- Gohiriwyd yr Adolygiad o Gymheiriaid o ganlyniad i bwysau'r pandemig a'r gwaith a oedd yn mynd rhagddo i gefnogi cychwyn yr adolygiad hwn;
- Darparwyd capasiti ychwanegol mewn perthynas â phryderon ynglŷn ag adnoddau i gefnogi'r tîm Llywodraethu Gwybodaeth.

Ystyriodd y Pwyllgor y diweddariad i'r cynllun gweithredu a'r cynnydd.

ACGC 4/2022	**Eitemau i'w Cymeradwyo**

ACGC 4.1/2022	**Cofnodion, Cofnod o Gamau Gweithredu a Materion yn Codi**

Ystyriodd y Pwyllgor y cofnodion a'r cofnod o gamau gweithredu'r cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 15 Medi 2021 (4.1a, b ac c ACGC 20012022).

Cymeradwywyd y cofnodion fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.

Ystyriodd y Pwyllgor y cofnod o gamau gweithredu a **chytunwyd** i gau tri phwynt gweithredu.

ACGC 4.2/2022	**Adolygiad o'r Posibilrwydd o Ddileu Dyledion**

Derbyniodd y Pwyllgor bapur Adroddiad Dileu Dyledwyr (cyf. 4.2 ACGC 20012022).

Cymeradwyodd y Pwyllgor y penderfyniad i ddileu drwgddyledion a hawliadau y rhoddwyd gorau iddynt sydd wedi'u cynnwys yn y papur yn unol â gofynion y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog.

ACGC 4.3/2022	**Cofrestrau Risg Strategol a Chorfforaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru**

Derbyniodd y Pwyllgor bapur Cofrestrau Risg Strategol a Chorfforaethol (cyf. 4.3a, b ac c ACGC 20012022). Nododd JL fod yr adroddiad mewn fformat newydd ac roedd bellach yn cynnwys Asesiad Hyder Cyflawni, ac Asesiad Rheoli Perchennog Risg.

Nododd RBW fod Cynllun Datblygu Risg wrthi'n cael ei ddatblygu, oedd i'w gyflwyno i'r Tîm Gweithredol Busnes ym mis Chwefror.

Trafododd y Pwyllgor y cofrestrau, a'r ffocws ar y pandemig o fewn y Risgiau Strategol, y byddai angen eu hadolygu wrth i'r ffocws hwn newid yn y sefydliad.

Cymeradwyodd y Pwyllgor y newidiadau i'r dyddiadau y gofynnwyd amdanynt o ran Risgiau 1 a 3 yn y Gofrestr Risgiau Strategol, a chymerodd **sicrwydd** bod y Risgiau Strategol a Chorfforaethol yn cael eu rheoli'n briodol.

ACGC 5/2022	**Eitemau i'w Nodi**

ACGC 5.1/2022	**Cynllun Cyfrifon Blynyddol 2021/22**
Nododd y Pwyllgor Gynllun Cyfrifon Blynyddol 2021/22 (cyf. 5.1 ACGC 20012022).	
ACGC 5.2/2022	**Cynllun Gwaith a Rhagolwg**
Derbyniodd y Pwyllgor y Cynllun Gwaith a'r Rhagolwg (cyf. 5.2 ACGC 20012022). **Nododd** y Pwyllgor y cynllun gwaith a'r papurau a restrir i'w dosbarthu y tu allan i'r Pwyllgor.	
ACGC 155/2021	**Materion Gweinyddol i Gloi**
ACGC 155.1/2020	**Dyddiad y cyfarfod nesaf**
Dydd Mercher, 16 Mawrth 2022, 09:30, Ystafell 3.7 Iechyd Cyhoeddus Cymru, Capital Quarter a thrwy Microsoft Teams	
ACGC 155.2/2020	**Cyhoeddi Papurau**
Nododd y Pwyllgor y byddai holl bapurau'r Pwyllgor yn cael eu cyhoeddi, **ac eithrio**: 3.6 Colledion a Thaliadau Arbennig 3.7 Adroddiad Caffael 3.10a, b Papurau Tor Diogelwch Data 4.2 Papur Dileu Dyledion 4.3 a, b, c Papurau risg	
ACGC 155.3/2020	**Adborth gan y Pwyllgor**
Diolchodd DE i bawb am eu cyfraniadau yn ystod y cyfarfod, a gofynnwyd i'r rhai oedd yn bresennol roi adborth ynghylch rheolaeth effeithiol y cyfarfod. Dywedodd VW fod y sesiynau craffu manwl mewn cyfarfodydd blaenorol yn werthfawr i alluogi'r Pwyllgor i archwilio meysydd yn fwy manwl. Cytunodd DE, gan nodi'r bwriad i ganiatáu amser ar agendâu lle bo modd yn y dyfodol ar gyfer yr adroddiadau cydymffurfio a sicrwydd angenrheidiol. Atgoffodd HB y Pwyllgor fod yr Adolygiad Blynyddol o Berfformiad y Pwyllgor yn mynd rhagddo ar hyn o bryd a bod arolwg wedi'i ddosbarthu i aelodau'r Pwyllgor a'r rhai a oedd yn bresennol. Holodd DE am unrhyw adborth pellach drwy e-bost ar ôl y cyfarfod.	
Daeth y Cyfarfod i ben am 16:26	